

YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2022

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd) Cynghorydd Ken Taylor
WRTH LAW:	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ), Swyddog Cynllunio (HR).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Trefor Lloyd Hughes MBE, John I Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Robin Williams a Liz Wood
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelodau Lleol : Cynghorywr Aled M Jones a Derek Owen Mr Thomas Parry – Profiad Gwaith

1 FPL/2022/215 - CAIS LLAWN A'R GYFER CODI SIED AMAETHYDDOL I STORIO PEIRIANNAU YNGHYD Â CHADW'R GWAITH AIL WYNEBU I'R TRAC YN CAPEL BACH, RHOSYBOL

Dangoswyd y cynlluniau arfaethedig a chynllun lleoliad y cais i'r Aelodau cyn iddynt gael mynediad i'r safle. Cyfeiriodd y Swyddogion at y llain galed ar y safle ac fe gyflwynwyd y cynllun lleoliad unwaith eto i Aelodau er mwyn iddynt allu gweld lleoliad y cais. Bu'r Cynghorydd Aled Morris Jones, Aelod Lleol, dynnu sylw at yr amrywiaeth o siediau amaethyddol eraill yn yr ardal a gofynnodd bod Aelodau yn edrych ar sied amaethyddol arall a oedd wedi'i lleoli i lawr y ffordd o'r safle hwn. Holodd Aelodau'r Pwyllgor am bwrpas arfaethedig y sied. Cadarnhaodd yr Aelodau Lleol, a oedd ar safle'r cais arfaethedig, leoliad y sied ac y byddai mewn pant yn y tirlun. Tynnwyd sylw Aelodau'r Pwyllgor hefyd at y safle carafanau a'r man chwarae yn ystod yr ymweliad safle.

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**